



Arweiniad ynghylch cofrestru Darlithwyr AB (Colegau ac Asiantaethau)

Arweiniad ynghylch cofrestru Darlithwyr AB (Colegau ac Asiantaethau)

Cyflwyniad

Dan Ddeddf Addysg Cymru 2014 a Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, mae'n rhaid i berson sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) addysg mewn, neu ar gyfer, sefydliad addysg bellach (AB) yng Nghymru fod wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) cyn iddo ddechrau gwaith.

Ar sefydliad AB, ac, os yw'n berthnasol asiantaeth gyflenwi breifat, y mae'r cyfrifoldeb am sicrhau mai darlithwyr cofrestredig yn unig a gyflogir mewn swyddi o'r fath.

Mae'n rhaid i sefydliadau AB ddefnyddio'r arweiniad hwn wrth ddarparu data i GyngACC / CGA er mwyn iddo gofrestru darlithwyr AB presennol erbyn 1^{af} Ebrill 2015. Bydd angen i unrhyw berson sydd wedi'i gyflogi i ymgymryd â gwaith darlithio / addysgu mewn sefydliad AB ar ôl 1^{af} Ebrill 2015 wneud cais i gofrestru gyda'r CGA yn uniongyrchol (gan ddefnyddio'r ffurflen gais i gofrestru safonol) cyn iddo allu dechrau yn ei swydd. Ar ôl i gofrestru gael ei gwblhau ar gyfer staff darlithio presennol, rhoddir set newydd o ganllawiau i sefydliadau eu defnyddio o 1^{af} Ebrill 2015 ymlaen.

Pa staff y mae angen iddynt gael eu cofrestru erbyn 1^{af} Ebrill 2015 o dan y categori "Darlithydd AB"?

- person a gyflogir gan sefydliad AB ar gontract darlithydd, boed hyn yn llawn-amser, yn rhan-amser, dros dro, ar sail tymor penodedig neu ar gyfradd tâl wrth yr awr, heb ystyried hyd a theitl eu swydd. Dylai hyn gynnwys pobl ar gyfnod mamolaeth, absenoldeb salwch neu bobl eraill sydd ar gontract darlithio, ond nad ydynt yn ymgymryd â gwaith darlithio / addysgu ei hun ar hyn o bryd.

Wrth ddarparu data i GyngACC / y CGA am y tro cyntaf, gofynnir i sefydliadau nodi staff a delir wrth yr awr ar wahân oherwydd efallai y byddai angen iddynt dalu eu ffi gofrestru'n uniongyrchol, yn hytrach na drwy ddi-dyniad o'u cyflogau;

- person a gyflogir ar raddfa reolaeth gan sefydliad AB sy'n ymgymryd â gwaith darlithio neu addysgu mewn, neu ar gyfer, sefydliad AB, heb ystyried nifer yr oriau mae'n eu gweithio, neu waeth pa mor fyrdymor y mae'r gwaith darlithio neu addysgu;
- staff asiantaeth sy'n ymgymryd â dyletswyddau darlithio / addysgu, heb gontract dros dro neu barhaol gyda sefydliad AB. Noder, ar gyfer cofrestru darlithwyr AB presennol am y tro cyntaf o 1^{af} Ebrill 2015, bydd GyngACC / y CGA yn cysylltu ag asiantaethau cyflenwi, yn ogystal â sefydliadau AB mewn perthynas â'r bobl hyn;
- person sydd eisoes wedi'i gofrestru fel athro gyda ChyngACC ond sy'n bodloni un o'r meini prawf uchod.

Pa staff presennol na fydd angen iddynt gael eu cofrestru erbyn 1^{af} Ebrill 2015 o dan y categori "darlithydd AB"?

- person ar raddfa reolaeth nad yw'n ymgymryd â gwaith darlithio neu addysgu mewn, neu ar gyfer, sefydliad AB. Gallai hyn gynnwys Pennaeth sefydliad;
- person nad yw wedi'i gyflogi ar gontract darlithydd. Gallai hyn gynnwys hyfforddwr, arddangoswr neu dechnegydd, er enghraifft. Bydd yn ofynnol i'r bobl hyn gofrestru o

1^{af} Ebrill 2016 o dan y categori cofrestru "gweithwyr cymorth dysgu AB". Noder, rydym yn gwybod y bydd teitlau swyddi'n amrywio fesul sefydliad, felly, y pwynt allweddol yw na ddylai'r person gael ei gyflogi ar gontract darlithydd;

- nid oes rhaid i berson nad yw ar gontract darlithydd (er enghraifft, hyfforddwr, arddangoswr neu dechnegydd) sy'n ymgymryd ag ychydig o waith darlithio neu addysgu i gyflenwi am absenoldeb aelod parhaol o'r staff darlithio gofrestru yn y categori "darlithydd AB". Byddai hyn yn cynnwys rhywun a allai gael "dyrchafiad" dros dro neu debyg i ymgymryd â dyletswyddau o'r fath. Os gosodir person ar gontract darlithydd wedi hynny, bydd angen iddo gael ei gofrestru yn y categori "darlithydd AB" cyn iddo ddechrau rôl o'r fath.

Mae rhai sefydliadau AB wedi awgrymu ei bod yn bosibl y gallent gyflenwi absenoldeb byrdymor darlithydd (er enghraifft, hyfforddwr, arddangoswr, technegydd nad yw'n gyfwerth ag amser llawn) drwy gontract darlithio rhan-amser yn achlysurol iawn. Mae CyngACC / y CGA yn dymuno gweithredu'n bragmatig mewn achosion o'r fath, a byddai'n cynghori'r sefydliad AB i drafod achosion unigol o'r fath yn uniongyrchol gyda ni, i bennu a oes angen cofrestru erbyn 1^{af} Ebrill 2015 neu beidio;

- asesydd yn y gwaith;
- person sy'n addysgu addysg uwch (AU) yn unig mewn, neu ar gyfer, sefydliad AB. Noder, bydd angen i berson sy'n dysgu AU ac AB fel ei gilydd mewn, neu ar gyfer, sefydliad AB gael ei gofrestru;
- person sy'n darparu diweddariadau dros dro neu achlysurol ar gyfer sefydliad AB ynghylch ymarfer presennol ym maes diwydiant, masnach neu yn y byd proffesiynol. Noder, ni fyddai pobl o'r fath ar gontract darlithydd. Er enghraifft, Cyfrifydd neu Gyfreithiwr sy'n ymweld â sefydliad i ddarparu mewn bwn proffesiynol i gwrs neu gyrsiau dair neu bedair gwaith y flwyddyn. Yn yr un modd, byddai'r un egwyddor yn gymwys i aelod o reolwyr sefydliad AB sy'n ymgymryd â gweithgaredd tebyg, er enghraifft, y Cyfarwyddwyr Cyllid sy'n darparu diweddariad proffesiynol i gwrs Busnes neu Gyfrifeg bob blwyddyn;
- person y mae ganddo gontract fel athro ysgol (gydag ysgol a gynhelir neu awdurdod lleol), ond sy'n ymgymryd â rhai dyletswyddau addysgu mewn sefydliad AB, gyda chytundeb eu cyflogwr parhaol yn yr ysgol neu'r awdurdod lleol;
- person sy'n cyflwyno Dysgu yn y Gymuned i Oedolion (neu ddarpariaeth freiniol debyg a ariennir yn gyhoeddus) a gyflogir gan sefydliad ac eithrio sefydliad AB, er enghraifft, awdurdod lleol;
- person a gyflogir gan sefydliad AB, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gwmni trydydd parti i ddarparu hyfforddiant sy'n benodol i ofynion corff neu sefydliad allanol. Mewn achosion o'r fath, nid cyflogai sefydliad AB yw'r person, ond mae'r sefydliad yn rheoli'r contract / sicrhau ansawdd y ddarpariaeth yn hytrach na'i chyflwyno gan ddefnyddio ei staff darlithio ei hun. Gallai enghreifftiau gynnwys:
 - cymwysterau NVQ
 - gweithgareddau masnachol
 - cyrsiau ar bynciau megis iechyd a diogelwch neu gwrs rheolaeth ar gyfer cwmni allanol
 - darpariaeth mewn carchar

- person sydd ond yn llogi adeiladau sefydliad AB neu sy'n eu defnyddio gyda chaniatâd y sefydliad AB. Er enghraifft, tîm chwaraeon sy'n llogi maes chwarae pêl-droed ar gyfer hyfforddiant bob wythnos neu gwmni sy'n llogi ystafell gynadledda.

Noder:

- (a) Nid yw'r rhestrau uchod yn gynhwysfawr, a gellid eu hadolygu dros amser.
- (b) Yn wahanol i athrawon ysgol (y mae'n rhaid iddynt feddu ar Statws Athro Cymwys er mwyn cael eu cofrestru), nid oes rhagofyniad o ran cymwysterau i ddarlithydd AB gael ei gofrestru. Bwriad Llywodraeth Cymru yw i'r CGA gasglu data ynghylch cymwysterau darlithwyr AB dros amser, ac i ystyried a ddylid cyflwyno gofyniad o'r fath ar adeg yn y dyfodol sydd heb ei diffinio eto. Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i fanylion gofyniad posibl o'r fath.